| NODAU: Eirioli | AMCANION: | CAMAU GWEITHREDU: | TYMOR BYR 1 flwyddyn | TYMOR CANOLIG 2 flynedd | TYMOR HIR 5 mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Codi gwerth, proffil a gwerthfawrogiad o'r celfyddydau yn y sir. | 1.1 Paratoi Strategaeth y Celfyddydau, mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd, a'i defnyddio i hysbysu a chynnwys y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol y celfyddydau. | A). Cynhyrchu cynllun gwasanaeth blynyddol sy'n nodi ac yn mesur y camau gweithredu i gyflawni'r strategaeth a sicrhau y cyrhaeddir targedau. | | | |
| | 1.2 Manteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo gwerth y celfyddydau i les pobl a'r cyfraniad y mae'r celfyddydau yn ei wneud at iechyd y sir a'i bywyd cymdeithasol, addysgol, amgylcheddol ac economaidd. | B). Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol i ddarparu prosiectau ymchwil sy'n arwain at ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth e.e. y Fagloriaeth Gymreig, Grŵp Celfyddydau mewn Iechyd Gogledd Cymru.<br><br>C). Gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ac Awdurdodau Lleol cyfagos i rannu rhaglen breswyl Artistiaid mewn Ysgolion Cyngor Sir y Fflint, a dysgu gan awdurdodau cyfagos am eu gwaith gyda Chleifion Dementia ac Arddangosfeydd Teithiol. | | | |
| | 1.3 Sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r cyfleoedd artistig a ddarperir gan Gyngor Sir y Fflint a darparwyr eraill o fewn y sir. | D). Cynhyrchu cynllun marchnata clir ar gyfer holl ddigwyddiadau a gweithgareddau Adain y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau gan gynnwys datganiadau i'r wasg, darparu gwybodaeth ar wefan Cyngor Sir y Fflint, creu deunyddiau hyrwyddo ac ati.<br><br>E). Hyrwyddo digwyddiadau artistig sefydliadau a grwpiau cymunedol lle bo hynny'n briodol. | | | |

| NODAU: Eirioli | AMCANION: | CAMAU GWEITHREDU: | TYMOR BYR | TYMOR CANOLIG | TYMOR HIR |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynyddu cyfleoedd i artistiaid, a chefnogi datblygu cynigion sy'n cynnig manteision i'r economi creadigol. | 1.4 Cadw a diweddaru cronfa ddata o artistiaid proffesiynol sy’n byw yn y sir.<br><br>1.5 Cysylltu gyda phartneriaid mewnol ac allanol i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer cyflogi artistiaid a rhoi budd economaidd i'r sir drwy gynnal arddangosfeydd, gwyliau, digwyddiadau, perfformiadau a phrosiectau celf gyhoeddus o fewn ein cymunedau. | | | | |

cyfleoe a artistiao Sr syn y artistiaie anifl g(cronfa)y

gynnd,

| NODAU: Cymryd Rhan | AMCANION: | CAMAU GWEITHREDU: | TYMOR BYR | TYMOR CANOLIG | TYMOR HIR |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefnogi ac annog darparu gweithgareddau/ digwyddiadau celfyddydol ar gyfer pobl ifanc fel cyfranogwyr a chynulleidfaoedd. | 2.1 Parhau i weithio gydag ysgolion, y Gwasanaeth Ieuenctid a Chymunedol, Partneriaeth Pobl Ifanc a sefydliadau celfyddydau ieuenctid eraill i roi mwy o gyfleoedd ar draws ystod o ffurfiau celf. | A). Parhau i ddatblygu rhaglen breswyl blaenllaw Artistiaid Mewn Ysgolion Cyngor Sir y Fflint ar draws ystod o ffurfiau celf.<br><br>B). Parhau i ddarparu a datblygu'r prosiect Criw Celf ar draws gogledd Cymru ar gyfer pobl ifanc fedrus sydd â diddordeb yn y celfyddydau gweledol.<br><br>C). Datblygu prosiectau cymunedol newydd sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc ac aelodau o'r Gwasanaeth Ieuenctid weithio gydag artistiaid proffesiynol ar draws ystod o ffurfiau celf. | | | |
| | 2.2 Monitro canlyniad 'Adolygiad Celf mewn Addysg yng Nghymru' Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, a lywiwyd gan Dai Smith a Strategaeth Creawdwyr Ifainc Cyngor Celfyddydau Cymru a sicrhau bod y prosiectau sydd wedi eu hanelu at bobl ifanc yn berthnasol i'r rhaglen leol a chenedlaethol. | D). Codi ymwybyddiaeth o gynllun cenedlaethol 'Arts Award' o fewn lleoliadau addysgol Sir y Fflint.<br><br>E). Cynghori ysgolion ar gyfleoedd a ddarperir trwy weithio gydag artistiaid proffesiynol i'w helpu i gyflawni canfyddiadau adroddiad 'Adolygiad o'r Celfyddydau Mewn Addysg yng Nghymru'. | | | |
| Cynyddu cyfleoedd i gymryd rhan ar draws ystod o ffurfiau celf. | 2.3 Gweithio gyda phobl broffesiynol yn y celfyddydau i ddatblygu ansawdd y profiadau cyfranogi. | F). Gweithio gydag artistiaid a sefydliadau celfyddydol i ddatblygu prosiectau o ansawdd uchel ar draws pob ffurf ar gelfyddyd, gan weithio gydag aelodau o gymunedau Sir y Fflint e.e. pobl hŷn, pobl anabl, pobl o ddiwylliannau amrywiol a phobl anodd eu cyrraedd. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2.4 Gweithio gydag awdurdodau eraill yng ngogledd Cymru i ddarparu amrywiaeth o brosiectau a chyfleoedd.<br><br>2.5 Rhoi cyngor a hyrwyddo cyfleoedd a gynigir gan unigolion, grwpiau a sefydliadau o fewn cymunedau Sir y Fflint. | G). Parhau i ddatblygu prosiectau rhanbarthol sy'n cynnig profiadau newydd i drigolion Sir y Fflint a rhannu arbenigedd gyda swyddogion y celfyddydau o awdurdodau cyfagos e.e. y celfyddydau mewn Iechyd, gweithdai cymunedol celf a chrefft, artistiaid preswyl mewn ysgolion.<br><br>H). Gweithio gyda, a chynghori grwpiau celfyddydol lleol, Rheolwyr Canol Tref, Cynghorau Cymuned a Llyfrgelloedd ar ddatblygu profiadau a phrosiectau celfyddydol o fewn eu cymunedau, e.e. cynnal gweithdai celf galw-i-mewn yn ystod gwyliau cymunedol, dosbarthiadau meistr artist a sgyrsiau gan artistiaid. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwella cyfleoedd i gyflwyno perfformiadau a phrofiadau celfyddydol mewn mannau ledled y sir. | 3.4 Gwerthuso Gŵyl Gelfyddydau Sir y Fflint i sicrhau ei bod yn darparu profiadau artistig arloesol ac o safon i gyfranogwyr a chynulleidfaoedd.<br><br>3.5 Annog sefydliadau lleol i wneud defnydd o Gynllun Teithiol Cymunedol 'Noson Allan' Cyngor Celfyddydau Cymru.<br><br>3.6 Sicrhau bod perfformiadau a phrofiadau yn cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg. | E). Mewn ymgynghoriad â phwyllgor Gŵyl Gelfyddydau Artsfest, partneriaid artistig, lleoliadau a chynghorau cymunedol, gwerthuso Gŵyl Gelfyddydau Sir y Fflint i sicrhau ei bod yn addas at y diben, yn gallu cyrraedd disgwyliadau cymunedau Sir y Fflint, yn hyrwyddo profiadau celf o safon, yn cynnig cyfleoedd i drigolion Sir y Fflint i ddysgu a datblygu sgiliau artistig.<br><br>F). Cynghori a gweithio gyda chanolfannau cymunedol, neuaddau pentref a mannau perfformio eraill i ddarparu perfformiadau 'Noson Allan' ar draws y sir. Cefnogi'r lleoliadau uchod i drefnu perfformiad trwy eu cynorthwyo gyda marchnata'r perfformiadau a'u cynghori ar sut i dargedu cynulleidfaoedd a gwerthu tocynnau er mwyn gwneud y digwyddiad yn llwyddiant.<br><br>G). Gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i ddarparu perfformiadau a phrofiadau celfyddydol trwy gyfrwng y Gymraeg e.e. Menter Iaith Sir y Fflint, Dydd Gŵyl Dewi Cyngor Sir y Fflint, Grwpiau Dysgu Cymraeg i Oedolion. | | | |

| NODAU: Polisïau | AMCANION: | CAMAU GWEITHREDU: | TYMOR BYR | TYMOR CANOLIG | TYMOR HIR |
|---|---|---|---|---|---|
| Sicrhau y cedwir at bob polisi a gweithdrefn bob amser e.e. cyfle cyfartal, iechyd a diogelwch ac ati. | 5.1. Adolygu'r canllawiau sydd ar gael am y celfyddydau ac anabledd. | A). Gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol, Cartrefi Preswyl ac Ysgolion Arbennig i ddatblygu prosiectau o ansawdd uchel a buddiol i bobl ag anableddau. | | | |
| | 5.2. Wrth ddatblygu rhaglenni gweithgaredd, ceisio sicrhau eu bod yn adlewyrchu ystod o draddodiadau diwylliannol gan gynnwys yr iaith a'r diwylliant Cymreig. | B). Derbyn cyngor gan arbenigwyr mewnol ac allanol ar gyflwyno rhaglen ddiwylliannol amrywiol o weithgaredd i drigolion Sir y Fflint. | | | |
| | 5.3. Ystyried polisi Cynhwysiad Cymdeithasol y Cyngor wrth ddyfeisio cyfleoedd artistig. | C). Sicrhau cyfleoedd artistig fforddiadwy a hygyrch ar draws pob ffurf ar gelfyddyd drwy geisio cyllid allanol ac ystyried addasrwydd lleoliadau a llwybrau cludiant cyhoeddus ac ati.<br><br>D). Darparu prosiectau mewn partneriaeth â Chymunedau yn Gyntaf o fewn cymunedau anodd eu cyrraedd. | | | |
| Sicrhau bod y ddarpariaeth gelfyddydol yn adlewyrchu gweledigaeth a gwerthoedd y Cyngor Sir. | 5.4 Monitro, yn gyson, bod polisïau ac arferion Tîm y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau yn adlewyrchu Blaenoriaethau'r Cyngor. | E). Ystyried blaenoriaethau'r Cyngor wrth lunio unrhyw gyfle artistig newydd i gymunedau Sir y Fflint. | | | |

Monitro
datblygiadau
mewn perthynas
â Strategaeth
Ddiwylliannol
Llywodraeth
Cymru a
Strategaeth